# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 3 Gorffennaf 2023

Amser: 13.30 - 14.10

Gellir gwylio’r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13400

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o’r Senedd: | Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Anfonodd Huw Irranca-Davies ei ymddiheuriadau. Yn unol â’r cynnig a dderbyniwyd yn y cyfarfod blaenorol, Alun Davies oedd y Cadeirydd dros dro.

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)365 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)363 – Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 3.1 SL(6)364 – Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid, Pasbortau Anifeiliaid Anwes ac Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau, Gwrthwynebiadau ac Ymchwiliadau) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 4.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Lleol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Gweinidog.

### 4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 4.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Manwerthu: Iechyd y Cyhoedd, Safonau Cynnyrch Marchnata ac Organig a Darpariaethau Amrywiol) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ragor o wybodaeth.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Weinidog yr Economi: Craffu ar waith y Gweinidog

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.3 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Diweddaru deddfwriaeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol.

### 5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio: y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Gweinidog Gwladol dros Dai a Chynllunio.

### 5.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd: Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog at y Llywydd.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Caffael

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 6) ar y Bil Caffael a chytunodd ar ei adroddiad drafft.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni a'r llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd at y Llywydd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i'w gwahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Gorffennaf i drafod materion ymhellach.

**Made Negative Resolution Instruments**

**Made Negative Resolution Instruments**

**Affirmative Resolution Instruments**